Partneriaeth
Cydwasanaethau
GIG Cymru




# Adolygiad Blynyddol

2023-2024

# Adolygiad Blynyddol Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru 2023–24

© Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru 2024

Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon yn rhad ac am ddim (ac eithrio logos adrannau neu asiantaethau) ar unrhyw ffurf neu mewn unrhyw gyfrwng, ar yr amod y ceir caniatâd i wneud hynny ac y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac mewn cyd-destun nad yw'n gamarweiniol.

Rhaid cydnabod mai deunydd dan hawlfraint Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yw hwn a rhaid nodi teitl y ddogfen. Os mai deunydd trydydd parti ydyw, rhaid cael caniatâd gan y deiliad hawlfraint perthnasol.

# Cynnwys


**Cyflwyniad gan y Rheolwr Gyfarwyddwr a'r Cadeirydd** 4

**Am PCGC** 5

Cipolwg 6

Ein Gwasanaethau 7

Map Strategaeth 8

**Perfformiad** 9

Dangosyddion Perfformiad Allweddol 10

Perfformiad Ariannol 14

Rheolaeth Ariannol ar y Gyllideb 15

Y Fframwaith Llywodraethu 19

Dyletswydd Ansawdd 20

Iechyd a Diogelwch 21

Llywodraethu Gwybodaeth 24

Y Gymraeg 25

Cyfathrebu 26

**Iechyd aLlesiant** 27

Cynllun Buddion Staff 28

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 28

Cynhadledd Iechyd a Llesiant 29

Llesiant Ariannol 29

Wythnos Siarad am Arian 29

Iechyd Corfforol 30

Iechyd Meddwl 31

Amrywiaeth a Chynhwysiant 32

**Ein Cyflawniadau yn erbyn ein Nodau Cyffredinol** 33

Cydnabod Staff 34

Ein Cyflawniadau 35

Astudiaethau Achos 36

Adborth gan ein Rhanddeiliaid 37

**Datblygu Cynaliadwy** 39

Egwyddor Datblygu Cynaliadwy 40

Perfformiad Cynaliadwyedd 42

Cyflogaeth Foesegol yn y Gadwyn Gyflenwi a Chaethwasiaeth Fodern 45

**Ein Pobl** 47

**Rhagolwg** 51

# Cyflwyniad gan y Cadeirydd a'r Rheolwr Gyfarwyddwr

***Croeso i Adolygiad Blynyddol Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC) 2023-24. Dyma'n trydydd Adolygiad Blynyddol ar ddeg ac, fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae'n dangos sut rydym yn gwella ein gwasanaethau yn barhaus er mwyn diwallu anghenion ein partneriaid a'n cwsmeriaid, ynghyd â'n hymrwymiad parhaus i ychwanegu gwerth trwy weithio mewn partneriaeth, arloesi a rhagoriaeth.***

Wrth edrych yn ôl ar 2023-24, arhosodd PCGC ar y trywydd iawn gyda'r rhan fwyaf o'r amcanion y cytunwyd arnynt yn ein Cynllun Tymor Canolig Integredig ac mewn ymateb i'r alwad i weithredu gan Lywodraeth Cymru. Cyfanswm ein gor-gyflawniad o arbedion ar gyfer 2023-24 oedd £3 miliwn. Rydym hefyd wedi cyflawni £260 miliwn o fuddion dylanwad proffesiynol ac rydym yn parhau i ail-fuddsoddi arbedion er budd GIG Cymru.

Ein cwsmeriaid craidd yw Llywodraeth Cymru a sefydliadau partner GIG Cymru ac rydym yn cydnabod bod holl staff y GIG, ein cyflenwyr, contractwyr annibynnol, cleifion a chenedlaethau'r dyfodol yn teimlo effaith ehangach pa mor dda yr ydym yn darparu ein gwasanaethau yng Nghymru. Mae ansawdd ein gwasanaethau yn rhan hanfodol o fesur ein perfformiad fel sefydliad. Rydym yn falch iawn o fod y sefydliad GIG cyntaf yng Nghymru i ennill yr achrediad Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmeriaid ar lefel gorfforaethol, ar draws ein holl meysydd gwasanaeth ac Is-adrannau. Roedd hwn yn ddilysiad annibynnol o gyflawniad ar draws amrywiaeth o gymwyseddau gwasanaeth cwsmeriaid craidd.

Byddwn yn parhau i ddefnyddio hyn fel sbardun gwelliant parhaus ac fel offeryn datblygu sgiliau ar gyfer ein staff i ddatblygu ffocws cwsmeriaid ac ymgysylltu â chwsmeriaid ymhellach. Gweithredwyd y Ddyletswydd Ansawdd a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2023. Bydd ein ffocws parhaus ar ddatblygu ein trefniadau Adrodd Bob Amser. Rydym wedi nodi sawl maes arfer da, a byddwn yn rhoi sicrwydd i'n partneriaid ynghylch sut yr ydym yn bodloni gofynion y ddeddfwriaeth newydd hon sy'n cynnwys gwasanaethau anghlinigol.

Rydym wedi parhau i dyfu ein hystod o wasanaethau, gan ymgorffori Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru yn y flwyddyn ddiwethaf ac ymgymryd â gwaith paratoi newidiadau i'r Gwasanaeth Offthalmig Cyffredinol a chyflwyno'r gwasanaeth e-bresgripsiynu yng Nghymru, yn ogystal â pharatoi ar gyfer lansiad statudol y Gwasanaethau Archwilio Meddygol. Rydym ni'n gobeithio y byddwch yn mwynhau darllen am ein cyflawniadau yn yr Adolygiad Blynyddol hwn ac edrychwn ymlaen at barhau i gwrdd a rhagori ar ddisgwyliadau ein rhanddeiliaid ar draws Cymru yn ystod 2024-25.



***Neil Frow OBE***

*Rheolwr Gyfarwyddwr*



***Professor Tracy Myhill OBE***

*Cadeirydd*

# Am PCGC



# At a Glance

**5,762**

Aelod o staff

Ar hyn o bryd rydym yn gweithredu o **15**

**£856 miliwn**

Cyllideb Refeniw

**£260 miliwn**

o fuddion
dylanwad proffesiynol

Rydym yn parhau i ailfuddsoddi arbedion er budd GIG Cymru.

**95%**

Caiff 95% o holl wariant GIG Cymru ei brosesu drwy systemau a phrosesau PCGC.







# Ein Gwasanaethau

## Sicrhau Gwerth, Arloesedd a Rhagoriaeth drwy Bartneriaeth

Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC) yn darparu ystod eang o wasanaethau proffesiynol, technegol a gweinyddol o ansawdd uchel i GIG Cymru, gan weithio gyda gwasanaethau cyhoeddus ehangach, gan gynnwys Llywodraeth Cymru.

Mae PCGC yn rhan annatod o deulu GIG Cymru, yn cefnogi darparu gwasanaethau i staff a chleifion Byrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau ac Awdurdodau Iechyd Arbennig yng Nghymru. Rydym hefyd yn darparu ystod o wasanaethau i ofal sylfaenol: Meddygfeydd, deintyddion, optegwyr a fferyllfeydd cymunedol ac, o 1 Ebrill 2023, fe ddechreuon ni ddarparu gwasanaethau i Gorff Llais y Dinesydd, Llais, trwy gytundeb lefel gwasanaeth lefel gwasanaeth.

- Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd
- Gwasanaethau'r Golchdy
- Gwasanaethau Cyllid a Chorfforaethol
- Cyfrifon Taladwy
- Cyflogwr Arweiniol ar gyfer hyfforddeion meddygol, deintyddol a fferylliaeth
- Cynllunio, Perfformiad a Gwybodeg
- Gwasanaethau Atal Twyll yng Nghymru
- Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg
- Pobl a Datblygu Sefydliadol
- Tîm Canolog e-Fusnes
- Gwasanaeth Archwilio Meddygol
- Y Labordy Profi Dyfeisiau Llawfeddygol
- Datrysiadau Gweithlu Digidol
- Gwasanaethau Gofal Sylfaenol
- Buddion Staff
- Gwasanaethau Cyflogaeth
- Gwasanaethau Caffael a'r Gadwyn Gyflenwi
- Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr
- e-Alluogi
- Gwasanaethau Technegol Fferylliaeth
- Cronfa Risg Cymru
- Yr Academi Gyllid (wedi'i lletya)
- Gwasanaethau Ystadau Arbennig
- Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru
- Y Gwasanaeth Negesydd Iechyd

# Ein Gwerthoedd

***Gwrando a Dysgu***
Ystyried yn barhaus a gwella ansawdd ac effeithiolrwydd popeth a wnawn.

***Cymryd Cyfrifoldeb***
am benderfyniadau dewr a thosturiol a gwneud i'r pethau iawn ddigwydd.

***Gweithio gyda'n gilydd***
Gyda chydweithwyr, cwsmeriaid a chyflenwyr.

***Arloesi***
Bod yn ddewr a chreadigol trwy welliant parhaus.

# Ein Nodau Strategol

## *Ein Pobl*
Cydweithio i fod y gorau y gallwn fod



### *Canlyniadau*

Byddwn yn creu cyfleoedd i'n staff presennol a'n staff yn y dyfodol wneud y gorau o'u potensial a meithrin ein cyflenwad o dalent.

Byddwn yn cynyddu amrywiaeth ein gweithlu ac yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg ym mhopeth a wnawn.

Byddwn yn hyrwyddo lles corfforol ledled y sefydliad i gefnogi ein staff.

Byddwn yn gwrando ar ein staff ac yn dysgu oddi wrthynt i gyd-gynhyrchu atebion arloesol gyda'n partneriaid.

## *Ein Gwasanaethau*
Ysgogi arloesedd a darparu gwasanaethau o ansawdd uchel yn gyson



### *Canlyniadau*

Byddwn yn galluogi ein timau sy'n delio â chwsmeriaid i gau mwyafrif yr ymholiadau ar y cyswllt cyntaf, trwy wella cyflymder y gwasanaeth, ansawdd a phrofiad.

Byddwn yn ysgogi arloesedd, gan osod y safon ar gyfer arfer da, a gwella ein prosesau drwy awtomeiddio.

Byddwn yn meithrin partneriaethau ag arweinwyr diwydiant a sefydliadau academaidd ac yn ceisio statws Prifysgol.

Byddwn yn cael ein llywio gan ddata, gan rannu gwybodaeth â'n partneriaid i ddylanwadu ar y gwaith o wneud penderfyniadau ar draws GIG Cymru.

## *Ein Gwerth*
Gwneud y mwyaf o fudd, effeithlonrwydd ac effaith gymdeithasol yr hyn a wnawn i'n partneriaid



### *Canlyniadau*

Byddwn yn gwneud penderfyniadau buddsoddi beiddgar sy'n ysgogi trawsnewid ac yn ychwanegu gwerth.

Byddwn yn arwain y ffordd ac yn mynnu'r newidiadau sydd eu hangen gan eraill i ymdrin â'r argyfwng newid hinsawdd a chyflawni targedau datgarboneiddio.

Byddwn yn defnyddio ein hadnoddau'n effeithlon ac yn cael effaith gadarnhaol ar sail gymdeithasol a chynaliadwy.

Byddwn yn arwain cyfleoedd i gynyddu buddsoddiad yn yr economi sylfaenol ledled Cymru fel cyfran gynyddol o'n cadwyn gyflenwi.

# Perfformiad





# Dangosyddion Perfformiad Allweddol

## Dangosyddion Perfformiad Allweddol mewnol:

| Dan gosyddion Perfformiad Allweddol a Thargedau Lefel Uchel | 2023 - 24 Gwirioneddol | 2023 - 24 Targed |
|---|---|---|
| **Cyllid a Gwasanaeth** | | |
| Sefyllfa Ariannol Gytbwys | -12 mil | Adennill costau |
| Sefyllfa Ariannol Gyfalaf Gytbwys | O fewn CEL | O fewn CEL |
| Dosbarthiad Arfaethedig | £3 miliwn | £0 |
| % o anfonebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod | 98% | 95% |
| **DPAau Sefydliadol PCGC - Recriwtio** | | |
| Diwrnodau Cyfartalog rhwng Creu Swydd wag i a chynnig diamod o fewn 71 diwrnod | 73 | 71 |
| Diwrnodau Cyfartalog Swyddi Gwag wedi'u cymeradwyo o fewn 10 diwrnod gwaith | 10.1 | 10 |
| Diwrnodau Cyfartalog Llunio Rhestr Fer ar gyfer Swyddi Gwag o fewn 3 diwrnod gwaith | 7.7 | 3 |
| Diwrnodau Cyfartalog Canlyniadau cyfweliad wedi'u hysbysu o fewn 3 diwrnod diwrnod | 3.9 | 3 |
| **Pobl a Datblygu Sefydliadol** | | |
| Absenoldeb Salwch Staff | 3.07% | 3.30% |
| Cydymffurfedd ag Adolygiadau Perfformiad a Datblygu | 84% | 85% |
| Cydymffurfedd â Hyfforddiant Statudol a Gorfodol | 93% | 85% |
| Asiantaeth % | 0.31% | <0.8% |

## Dangosyddion Perfformiad Allweddol allanol:

| Dangosyddion Perfformiad Allweddol a Thargedau Lefel Uchel | 2023 -24 Gwirioneddol | 2023 - 24 Targed |
|---|---|---|
| **Dylanwad Proffesiynol** | | |
| Buddion Dylanwad Proffesiynol | £260 miliwn | £110 miliwn |
| **Gwasanaethau Caffael** | | |
| Arbedion Caffael | £29 miliwn | £16 miliwn |
| **Cyfrifon Taladwy** | | |
| Arbedion a Llwyddiannau | £13 miliwn | |
| % o anfonebau Cymru Gyfan a dalwyd o fewn 30 diwrnod | 96% | 95% |
| **Gwasanaethau Cyflogaeth** | | |
| Cywirdeb Cyffredinol y Gyflogres | 99.9% | 99.6% |
| Cywirdeb Cyffredinol y Gyflogres | 99.8% | 99.6% |
| % o Alwadau'r Gyflogres yr ymdriniwyd â hwy | 98% | 95% |
| **DPAau Sefydliadol Recriwtio Cymru Gyfan** | | |
| Diwrnodau Cyfartalog rhwng Creu Swydd wag i a chynnig diamod o fewn 71 diwrnod | 73 | 71 |
| % o Alwadau Recriwtio yr ymdriniwyd â hwy | 99% | 95% |
| **DPAau Sefydliadol Recriwtio Cymru Gyfan** | | |
| % o Swyddi Gwag a hysbysebwyd o fewn 2 ddiwrnod gwaith o'u derbyn | 99% | 95% |
| % o lythyrau cynnig amodol a anfonwyd o fewn 4 diwrnod gwaith | 98% | 95% |
| **Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr** | | |
| % o Alwadau Dyfarniadau Myfyrwyr yr Ymdriniwyd â Hwy | 96% | 95% |
| % o Geisiadau Bwrsariaeth y GIG a broseswyd o fewn 20 diwrnod | 100% | 100% |
| **Tîm Canolog Gwasanaethau e-Fusnes** | | |
| Caiff digwyddiadau blaenoriaeth uchel a godir gyda'r Tîm Canolog ymateb o fewn 20 munud | 100% | 85% |
| Bydd tocynnau Pwynt Gwasanaeth BACS a dderbynnir cyn 14.00 yn cael eu prosesu ar yr un diwrnod gwaith | 100% | 95% |

| Dangosyddion Perfformiad Allweddol a Thargedau Lefel Uchel | 2023 - 24 Gwirioneddol | 2023 - 24 Targed |
|---|---|---|
| **Gwasanaethau Gofal Sylfaenol** | | |
| Taliadau gofal sylfaenol a wnaed yn unol â therfynau amser Statudol | 100% | 100% |
| Presgripsiynau - cyfraddau cywirdeb mewnbynnu | 99.7% | 99% |
| Cofnodion meddygol brys a drosglwyddwyd o fewn 2 ddiwrnod gwaith | 100% | 100% |
| Aseiniadau cleifion a weithredwyd o fewn 24 awr i dderbyn y cais | 100% | 100% |
| Rhybuddion Rhaeadru Categori A i'w cyhoeddi o fewn 4 awr o'u derbyn | 100% | 80% |
| **Archwilio a Sicrwydd (Mehefin - Mawrth 23)** | | |
| Barn archwilio/adroddiadau blynyddol yn cadw at yr amserlen | Ydyn | Ydyn |
| Archwiliadau wedi'u cyflawni ar gyfer pob Pwyllgor Archwilio yn unol â'r cynllun y cytunwyd arno | Ydyn | Ydyn |
| Cyflymder cynhyrchu adroddiadau - o waith maes i gyflwyno adroddiad drafft [10 diwrnod] | 92% | 95% |
| Cyflymder cynhyrchu adroddiadau - ymateb rheolwyr i'r adroddiad drafft [15 diwrnod] | 78% | 80% |
| Cyflymder cynhyrchu adroddiadau - o ymatebion i'r drafft i'r adroddiad terfynol [10 diwrnod] | 99% | 95% |
| **Gwasanaethau Ystadau Arbennig** | | |
| Arbedion Dylanwad Proffesiynol | £19 miliwn | £5.5 miliwn |
| **Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg** | | |
| Arbedion a Llwyddiannau | £176M | £65M |
| Prydlondeb cydnabod cais am gyngor - o fewn 24 awr | 100% | 90% |
| Prydlondeb rhoi cyngor – o fewn 3 diwrnod neu o fewn yr amserlen gytunedig | 99% | 90% |
| **Cronfa Risg Cymru** | | |
| Yr amser rhwng cyflwyno a'i ystyried gan y Panel Cynghori ar Ddysgu | 100% | 95% |
| Amser o'i ystyried gan y Panel Cynghori ar Ddysgu i'w gyflwyno i Bwyllgor Cronfa Risg Cymru | 100% | 95% |
| Cynnal digon o gyfarfodydd o'r Panel Cynghori ar Ddysgu | 100% | 95% |

| Dangosyddion Perfformiad Allweddol a Thargedau Lefel Uchel | 2023 - 24 Gwirioneddol | 2023 - 24 Targed |
|---|---|---|
| **Y Labordy Profi Dyfeisiau Llawfeddygol** | | |
| % o adroddiadau digwyddiad a anfonwyd at yr Awdurdod Rheoleiddio o fewn 50 diwrnod i dderbyn y ffurflen | 100% | 100% |
| % o adroddiadau wedi eu harchwilio a gyflwynwyd yn brydlon (Masnachol) | 99% | 89% |
| % o werthusiadau sicrwydd Technegol a gyflwynwyd yn brydlon | 100% | 89% |
| **Datrysiadau Gweithlu Digidol** | | |
| Boddhad Cwsmeriaid | 91% | 90% |
| % o Alwadau yr Ymdriniwyd â hwy | 94% | 85% |
| **Gwasanaethau Golchdy Cymru Gyfan** | | |
| Archebion a anfonwyd i fodloni archebion sefydlog cwsmeriaid | 100% | 85% |
| Dosbarthiadau a wnaed o fewn 2 awr i'r amser dosbarthu y cytunwyd arno | 100% | 85% |
| Pwyntiau methiant cyswllt microbiolegol | 96% | 85% |
| **Gwasanaethau Archwilio Meddygol** | | |
| Nifer yr achosion a gyfeiriwyd i’r Gwasanaeth Archwilio Meddygol | 100% | 100% |
| Achosion “Byth” | 0 | 0 |

***Yn ystod 2023-24, gwnaethom adnewyddu ein Fframwaith Perfformiad i ddod â mesurau perfformio ynghyd sy’n amlygu ein perfformiad strategol a phroses uwchgyfeirio i reoli tanberfformiad. Rydym yn parhau i ddarparu astudiaethau achos a dulliau ansoddol eraill i ddangos ein perfformiad. Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom greu Grŵp Perfformiad a Chanlyniadau, yn benodol i edrych ar ddatblygu mesurau canlyniadau a fydd yn dechrau cael eu hadrodd yn ystod 24-25. Lle na chyrhaeddwyd targedau blwyddyn ariannol 2023-24, amlinellir isod drosolwg o sut byddwn yn mynd i’r afael â pherfformiad wrth edrych tua’r dyfodol.***

## Archwilio a Sicrwydd

- ➘ Cyflymder cynhyrchu adroddiadau - ymateb rheolwyr i’r adroddiad drafft (15 diwrnod) ac o waith maes i gyflwyno adroddiad drafft (10 diwrnod) sy’n mesur cyflymder cynhyrchu adroddiadau o fewn y sefydliad iechyd ac o fewn Archwilio a Sicrwydd.

Methwyd â chyrraedd y targedau o drwch blewyn, ond mae Penaethiaid Archwilio yn trafod yr oediadau hyn yn uniongyrchol gyda sefydliadau iechyd a hynny’n gyson.

## AGDP

Gan gydnabod ein bod yn perfformio'n is na'r targed ar gyfer cydymffurfio â PADR, rydym wedi nodi meysydd sydd angen cymorth ac rydym yn gweithio gyda'n staff anodd eu cyrraedd a'n gwasanaethau a letyir i'w galluogi i sicrhau bod sgyrsiau ystyrlon yn cael eu cynnal i gefnogi perfformiad a datblygiad staff.



## Recriwtio

- Fel gwasanaeth sy'n gweinyddu prosesau recriwtio ar gyfer holl sefydliadau'r GIG yng Nghymru, rydym yn gweithio ar y cyd â sefydliadau i sicrhau bod gweithgareddau'n cael eu prosesu'n effeithlon, ond hefyd yn ddiogel.
- Mae newidiadau i'r Broses Moderneiddio Recriwtio wedi'u rhoi ar waith yn yr holl sefydliadau iechyd ac mae gwelliannau ym mhrofiad rheolwyr ac ymgeiswyr i'w gweld.
- Yn ogystal â hyn, bu gwelliannau yn yr amser cyffredinol i benodi drwy'r gwaith moderneiddio a glanhau cofnodion hŷn yn y system recriwtio. Yr amser penodi ar 24 Mawrth ar gyfartaledd oedd 62 diwrnod o'i gymharu â tharged o 71 diwrnod ar gyfer Cymru Gyfan.




# Rheolaeth Ariannol ar y Gyllideb

## Targedau:

- PCGC yn rhoi cymorth i holl gyrff y GIG ledled Cymru ac, fel y cyfryw, rhaid iddi ddefnyddio'r gyllideb a ddyrennir iddi i gwrdd â'r costau rhedeg, ac mae gofyn iddi o leiaf adennill costau bob blwyddyn.
- Yn ogystal, bydd PCGC yn dosbarthu arbedion a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn ariannol i gyrff iechyd ar draws Cymru.
- Yn ogystal â sicrhau bod incwm a gwariant refeniw yn gytbwys, mae gofyn iddi hefyd sicrhau bod unrhyw wariant cyfalaf o fewn y Terfyn Gwariant Cyfalaf a ddarperir gan Lywodraeth Cymru.
- Yn olaf, mae Polisi Taliadau'r Sector Cyhoeddus (PSPP) yn ei gwneud yn ofynnol i PCGC dalu anfonebau i ddarparwyr nad ydynt yn rhan o'r GIG o fewn 30 diwrnod o gyhoeddi anfoneb neu dderbyn y nwyddau.

Yn ystod 2023–24 cyflawnwyd pob un o'n targedau perfformiad ariannol, rhagorwyd ar ein targedau arbedion a bu'n bosib i ni rannu £2 miliwn o arbedion i GIG Cymru a Llywodraeth Cymru.

## Alldro:




## Llwyddiannau:

| | | |
|---|---|---|
| Cyfalaf o £7.977 miliwn | Dosbarthwyd £3.000 miliwn o arbedion | PSPP - 98% |


## Gellir crynhoi incwm a gwariant PCGC fel a ganlyn:

| | 2023 - 24 £m | 2022 - 23 £m |
|---|---|---|
| Incwm | 855.922 | 778.021 |
| Gwariant | 554.272 | 572.012 |
| WRP – DEL* | 135.966 | 136.727 |
| WRP – AME** | 165.673 | 69.270 |
| Gwarged | 0.012 | 0.012 |

**Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) ar gyfer talu costau yn ystod y flwyddyn sy'n ymwneud â hawliadau sydd wedi eu setlo. Caiff gwariant uwchlaw'r dyraniad blynyddol ei adennill o Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau gan ddefnyddio cytundeb rhannu risg a gymeradwywyd gan Bwyllgor Partneriaeth PCGC ar gyfer twf mewn hawliadau craidd.*


***Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) i gwrdd â chost cyfrifo ar gyfer rhwymedigaethau hirdymor hawliadau. Mae'r gyllideb hon yn seiliedig ar amcangyfrifon a ddarparwyd yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru gan y WRP.*

## Gwariant Refeniw




Yn ystod blwyddyn ariannol 2023-24, cyfanswm y gwariant oedd £856 miliwn. Gwariwyd £347 miliwn ar gostau cyflogau, £207 miliwn ar gostau nad ydynt yn ymwneud â chyflogau a £302 miliwn ar Wariant Cronfa Risg Cymru.

## Gwariant ar gyflogau





*Yn gyffredinol, mae gwariant ar staff banc, goramser ac asiantaeth yn ymwneud â llenwi swyddi gwag, swyddi gwag hirdymor neu gefnogaeth i'r cymorth COVID parhaus (a ddaw yn fusnes fel arfer ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf). Mae gwariant ar dâl cyfradd premiwm yn cael ei leihau cymaint â phosibl.*

**Mae'r cynllun Un Cyflogwr Arweiniol (SLE) yn drefniant cyflogaeth a roddwyd ar waith i reoli a chefnogi'n effeithiol yr holl hyfforddeion Meddygol a Deintyddol ledled Cymru drwy gydol eu rhaglen hyfforddi.*

## Gwariant nad yw'n gysylltiedig â chyflogau:

Cyfanswm y gwariant ac eithrio cyflogau ar gyfer blwyddyn ariannol 2023–24 oedd £207 miliwn, ac nid oedd hynny'n cynnwys taliadau i Gronfa Risg Cymru. Mae'r siart isod yn dangos y prif gategorïau gwariant ac eithrio cyflogau ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24 gyda dadansoddiad pellach o'r gwariant "arall".




**Bwriad Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (WIBSS) yw darparu cymorth i bobl sydd wedi'u heintio â Hepatitis C a/neu HIV yn dilyn triniaeth gyda gwaed, cynhyrchion gwaed neu feinwe´r GIG yn y 1980au a'r 1990au.*

## Buddsoddiadau cyfalaf

Yn ystod blwyddyn ariannol 2023-24, buddsoddodd PCGC gyfanswm o £5.547 miliwn ar draws amrywiaeth eang o brosiectau cyfalaf. Gwnaethpwyd buddsoddiadau sylweddol yn ein Golchdai i adnewyddu/ail-ddefnyddio offer diwedd oes (£1.918 miliwn), system gwybodaeth y gweithlu gofal sylfaenol (£0.444 miliwn) a cherbydau newydd fel rhan o'n strategaeth adnewyddu asedau (£0.483 miliwn).

| Cynllun | Gwariant £000 |
|---|---|
| Gweinydd | 400 |
| Teleffoni a Chanolfan Gyswllt | 90 |
| Rheseli/LEDs Tŷ Cwmbrân | 24 |
| Offer dihalogi | 10 |
| Cydbwysedd LED IP5 | 3 |
| **Tŷ Matrix EVCP** | **1** |
| **Cyfanswm Cyfalaf Dewisol** | **528** |
| Gwasanaethau'r Golchdy | 1,918 |
| System Gwybodaeth y Gweithlu Gofal Sylfaenol | 444 |
| Cerbydau Cadwyn Gyflenwi | 483 |
| Ffioedd/Offer Radiofferylliaeth | 469 |
| Cynllun PV IP5 | 441 |
| Adnewyddu TG a thrwyddedau | 285 |
| Rheseli a TG Gofal Sylfaenol Dupont | 241 |
| Ffioedd TRAMS | 217 |
| Rheseli a Thrwsio Toeon Storfeydd Dinbych | 150 |
| IP5 Dewisol | 105 |
| Offer SMTL | 130 |
| Sganio er Diogelwch | 67 |
| Meddalwedd/synwyryddion Occupeye | 54 |
| Dodrefn Hyblyg Hwb De Cymru | 42 |
| Offer a CCTV Storfeydd | 29 |
| Trosglwyddo Glidescopes i CTM | -56 |
| **Cyfanswm Cyfalaf Ychwanegol** | **5019** |
| Cyfalaf IFRS16 | 2,430 |
| **Cyfanswm Dyraniad Cyfalaf** | **7977** |

# Y Fframwaith Llywodraethu

***Mae Pwyllgor y Partneriaeth Cydwasanaethau (SSPC) a Phwyllgor Archwilio PCGC yn gyfrifol am graffu, asesu a monitro perfformiad. Mae'r pwyllgorau hyn, ynghyd â sawl is-bwyllgor a grŵp ymgynghorol, yn sicrhau cydymffurfedd â Fframwaith Llywodraethu a Sicrwydd cyffredinol PCGC. Caiff papurau'r pwyllgor eu cyhoeddi ac maent ar gael ar ein gwefan.***

Mae aelodau Pwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau yn cynnwys Cadeirydd Annibynnol, Rheolwr Gyfarwyddwr PCGC ac naill ai'r Prif Weithredwr neu gynrychiolydd enwebedig arall, sy'n gweithredu ar ran pob Bwrdd Iechyd neu Ymddiriedolaeth ac Awdurdod Iechyd Arbennig GIG Cymru. Mae Pwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau yn gyfrifol am sicrhau bod PCGC yn dilyn yr egwyddorion llywodraethu da yn gyson, a'i fod yn goruchwylio ac yn datblygu systemau a phrosesau sefydliadol ar gyfer rheolaeth ariannol a sefydliadol, llywodraethu, a rheoli risg.


Swyddogaeth y Pwyllgor Archwilio yw adolygu ac adrodd ar weithrediad effeithiol y system lywodraethu gyffredinol a'r system reoli fewnol. Mae hyn yn cynnwys rheoli risg, rheolaethau cydymffurfio gweithredol a sicrwydd cysylltiedig sy'n cefnogi cyflawni amcanion a chynnal safonau llywodraethu da.

Ceir tystiolaeth o reoli adnoddau yn ystod 2023-24 yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae'r datganiad yn disgrifio i ba raddau y gwnaethom gydymffurfio â'n gofynion llywodraethu ein hunain, gan grynhoi'r holl ddatgeliadau sy'n ymwneud â llywodraethu, risg a rheolaeth.

Cyhoeddir Papurau Pwyllgor a Datganiadau Gweithredol ac **maent ar gael ar ein gwefan**.

Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn rhoi ei b/farn bob blwyddyn ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y prosesau rheoli risg, rheolaeth, a llywodraethu, sef **sicrwydd rhesymol** ar gyfer 2023-24.

## Ein Strwythur





# Dyletswydd Ansawdd

***Daeth y Ddyletswydd Ansawdd i rym ar 1 Ebrill 2023 a gosododd ddyletswydd statudol ar holl gyrff y GIG i ystyried ansawdd wrth gyflawni ein gwasanaethau clinigol ac anghlinigol. Nod cyffredinol y ddyletswydd yw gwella ansawdd gwasanaethau iechyd a gwella canlyniadau iechyd i bobl Cymru. Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC) yn darparu amrywiaeth o wasanaethau clinigol ac anghlinigol trwy strwythur adrannol.***

## Cyflawniadau allweddol yn2023-24

- Codi ymwybyddiaeth, gan gynnwys sesiynau pwrpasol gyda'r Bartneriaeth Cydwasanaethau, Grŵp Uwch Arweinyddiaeth a boreau coffi staff
- Rhoi Rhwydwaith Hyrwyddwyr Ansawdd ar waith ar gyfer rhannu arferion gorau
- Cynllunio a gwneud penderfyniadau o safon
- Adroddiadau a yrrir gan ansawdd
- Rheoli ansawdd a defnyddio data i wella ansawdd
- Cynllunio a gwneud penderfyniadau o safon
- Adolygiadau ansawdd allanol, ardystiadau a gwobrau



# Iechyd a Diogelwch

***Mae PCGC yn rhoi'r pwys mwyaf ar iechyd, diogelwch a lles staff ac ymwelwyr. Ystyrir ei bod yn hanfodol bod rheolwyr a staff yn cydweithio'n gadarnhaol i sicrhau amgylchedd sy'n gydnaws â darparu gwasanaethau o'r ansawdd uchaf i staff ac ymwelwyr lle mae peryglon iechyd i staff ac ymwelwyr ac eraill yn cael eu lleihau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol.***

Er mwyn cyflawni ein hamcanion, mae arnom angen gweithlu hynod fedrus, llawn cymhelliant, ymroddedig ac iach. Mae ymgysylltiad staff ac iechyd a diogelwch yn flaenoriaeth a bydd yn cael ei sicrhau mewn amgylchedd lle mae staff yn cael eu rheoli'n dda a'u gwerthfawrogi am eu cyfraniad.

Amcan PCGC yw darparu a chynnal amgylchedd diogel ac iach i bawb sy'n defnyddio ein gwasanaethau. Cyflawnir hyn trwy arweinyddiaeth effeithiol uwch reolwyr, cyfranogiad yr holl staff a sianeli cyfathrebu agored ac ymatebol.



## Yn ystod 2023-24, prif gategori digwyddiadau iechyd a diogelwch oedd:



Dod i gysylltiad â gwrthrych



Codi a Chario



Llithro, Baglu a Chwympo




Trais ac Ymddygiad Ymosodol

## Tueddiadau ac Amcanion Iechyd a Diogelwch 2023/2024

| Categori Tueddiadau | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | Trend |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyswllt â gwrthrych/ wedi'i daro gan wrthrych | 11 | 11 | 26 | 30 | 18 | ↓ |
| Codi a Chario | 14 | 12 | 23 | 16 | 16 | → |
| Llithro, Baglu a Chwympo | 13 | 6 | 15 | 15 | 6 | ↓ |
| Trais ac Ymddygiad Ymosodol | 14 | 10 | 10 | 15 | 20 | ↑ |


Gwelir gostyngiad sylweddol ers y flwyddyn flaenorol mewn perthynas â chysylltiad â gwrthrych/trawyd gan wrthrych a llithro, baglu a chwympo. Mae nifer y codi a chario wedi aros yr un fath â'r flwyddyn flaenorol, tra bod digwyddiadau trais ac ymddygiad ymosodol wedi cynyddu o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Mewn perthynas â'r cynnydd yn nifer y digwyddiadau yr adroddwyd amdanynt, gellir cysylltu hyn â'r ffaith bod y staff yn parhau i gael eu hannog i gymryd agwedd dim goddefgarwch tuag at drais ac ymddygiad ymosodol yn y gweithle ac annog staff i adrodd am unrhyw ddigwyddiadau mewn modd amserol.




Yn ystod y cyfnod, paratowyd rhestr archwiliadau mewnol iechyd a diogelwch gan y Rheolwr Iechyd a Diogelwch a'r Swyddog Cymorth Iechyd a Diogelwch yn PCGC.

## Digwyddiadau Iechyd a Diogelwch fesul Grŵp Gwasanaeth a fesul Chwarter - 2023/2024




| | Y Gwasan--aeth Negesydd Iechyd | Archwilio Meddygol | Gwasanae--thau Gofal Sylfaenol | Gwasanae--thau Caffael | Gwasanae--thau'r Golchdy | Gwasanae--thau Corfforaethol a Chyllid | Cyflogaeth y GIG | Gwasan--aeth Atal Twyll GIG Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CH1 2023/24 | 7 | 1 | 1 | 2 | 4 | 0 | 0 | 0 |
| CH2 2023/24 | 12 | 0 | 0 | 7 | 0 | 1 | 1 | 1 |
| CH3 2023/24 | 9 | 1 | 1 | 4 | 2 | 0 | 1 | 0 |
| CH4 2023/24 | 8 | 1 | 0 | 3 | 4 | 0 | 1 | 0 |

## Digwyddiadau Iechyd a Diogelwch fesul Is-Gategori fesul Chwarter 2023-24



# Llywodraethu Gwybodaeth

IYn ystod 2023/24, cynhaliwyd y gweithgareddau canlynol o fewn y swyddogaeth Llywodraethu Gwybodaeth:

**16**

Mynychwyd dosbarthiadau LlG wyneb yn wyneb gan

**89%**

Cyfartaledd cydymffurfedd â sgiliau craidd e-Ddysgu LlG ar draws

**112**

Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a gafwyd

**331**

Galwadau Actionpoint wedi'u cofnodi ar blatfform pwrpasol y gwasanaeth.

**96%**

Cydymffurfedd ag ymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth o fewn 20 diwrnod gwaith

**570**

Staff a fynychodd sesiwn hyfforddi




- Hysbysiadau Preifatrwydd a phrotocolau wedi'u hadolygu lle bo'n berthnasol.
- Datblygwyd cyfathrebiadau rheolaidd i ddarparu diweddariadau ar bob pwnc IG.
- Niferoedd isel o achosion o dorri amodau IG drwy gydol y flwyddyn ac ni adroddwyd am unrhyw ddigwyddiadau difrifol.
- Sicrwydd sylweddol gyda'r pecyn cymorth asesu IG blynyddol.
- Lansiwyd canllawiau a phrotocolau LlG newydd.
- Adolygwyd Polisïau a Gweithdrefnau yn unol â dyddiadau adolygu.
- Cwblhawyd Asesiadau o'r Effaith ar Breifatrwydd gan gynnwys gwasanaethau Gofal Sylfaenol (presgripsiynu electronig, gwasanaeth amhariad ar y golwg a chynllun cymhorthdal di-glwten)
- Cwblhawyd y cynllun gwaith yn llawn.
- Cyfarfodydd IG mewnol yn cael eu cynnal bob chwarter.quarter.

# Y Gymraeg

Mae'r Uned Iaith Gymraeg yn parhau i ddarparu gwasanaethau cymorth cyfieithu ar gyfer nifer o sefydliadau'r GIG drwy CLGau.

Yn ystod 2023/24, gwnaethom gyrraedd uchafbwynt newydd o 5.5 miliwn o eiriau a gyfieithwyd, sef cynnydd cyson o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Rydym wedi buddsoddi mewn system cof cyfieithu newydd, wedi recriwtio adnoddau yn y tîm cyfieithu craidd a'r banc cyfieithu i gwrdd â'r galw am wasanaethau yn 2024/25.

| Sefydliad | Cyfanswm | % |
|---|---|---|
| PCGC | 1,840,329 | 33% |
| Iechyd Cyhoeddus Cymru | 1,282,845 | 23% |
| Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC) | 1,001,335 | 18% |
| YGPF | 1,442,444 | 26% |
| Corff Llais y Dinesydd - Llais | 24,287 | 0.50% |




## Corff Llais y Dinesydd 2024/25

**Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cwsmeriaid (CSE)** - Mae Uned yr Iaith Gymraeg yn PCGC wedi bod yn ymwneud â'r rhaglen CSE yn ystod 2023/24 ac mae'r gwaith hwn yn parhau i sicrhau ein bod yn darparu'r gwasanaeth gorau posibl i'n cwsmeriaid yn PCGC a thrwy ein Cytundebau Lefel Gwasanaeth.

**Gwella ein gwasanaethau a'n systemau ffôn** - mae PCGC wedi cyflwyno system ffôn newydd sydd hefyd wedi ein galluogi i adolygu ein cydymffurfiaeth â'r safonau ffôn a gwella profiad cwsmeriaid drwy'r Gymraeg.

**Treialu meddalwedd cof cyfieithu a rennir** - Yn ystod 2023/24 fe wnaethom gaffael meddalwedd cof cyfieithu ac ar hyn o bryd rydym yn treialu rhannu'r system gydag Ymddiriedolaeth GIG Felindre, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru er mwyn osgoi dyblygu gwaith ac i fod yn fwy effeithlon.

**Prosiect WGOS** - Mae'r prosiect hwn wedi bod yn ddarn sylweddol o waith yn ystod 2023/24. Mae dod â gofal llygaid i gleifion yn nes at gartrefi pobl yn flaenoriaeth weinidogol. Mae'r iaith Gymraeg wedi bod yn ganolog i'r prosiect hwn wrth i ni sicrhau bod dogfennau i gleifion ar gael yn Gymraeg. Cynhaliwyd gweminarau hefyd yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg gydag optometryddion ledled Cymru.

**Allgymorth ac ymgysylltu ag ysgolion** - Mae'r Rheolwr Gwasanaethau Cymraeg wedi bod yn gweithio gyda Gyrfa Cymru ac Ysgolion Uwchradd yn ardal Caerdydd a'r Fro i hyrwyddo'r gyrfaoedd yr ydym yn eu cynnig yn PCGC gydag Ysgolion Cyfrwng Cymraeg. Roedd y gwaith yn canolbwyntio ar bwysigrwydd y Gymraeg wrth gyflenwi gwasanaethau.

# Cyfathrebu

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Tîm Cyfathrebu wedi dangos eu hymrwymiad i genhadaeth PCGC, gyda chynnydd nodedig yn y galw am wasanaethau craidd, gan gynnwys dylunio graffeg, datblygu a rheoli gwefannau, brandio, hyfforddiant, dylunio golygyddol, gweminarau, fideograffeg, ymgyrchu mewnol ac allanol, a rheoli ymholiadau'r wasg a'r cyfryngau. Yn ogystal, maent hefyd wedi bod ar flaen y gad o ran arloesi, gan ddatblygu cymwysiadau symudol mewnol, megis yr Ap Symudol Digwyddiadau Mawr a'r Ap Symudol Atal Twyll. Maent wedi bod yn allweddol wrth hyrwyddo blaenoriaethau gweinidogol megis Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru (WGOS), yn ogystal â mentrau sefydliadol mewnol allweddol megis Rhaglen Nantgarw 2, cyhoeddiadau adrannol a sefydliadol, gydag ymdrechion cydweithredol yn allweddol i ysgogi canlyniadau sy'n cael effaith ac atgyfnerthu ymroddiad Partneriaethau Cydwasanaethau GIG Cymru i ragoriaeth. Wrth edrych i'r dyfodol, mae'r adran Cyfathrebu wedi ymrwymo i wella gweithdrefnau adrodd er mwyn sicrhau y gellir rhannu cynrychiolaeth gadarn a thryloyw o gyflawniadau.

## Ystadegau Gwefan (cyfnod adrodd – 16/04/23 – 16/04/24)

**728, 912** Website Hits

## Ystadegau Cyfryngau Cymdeithasol (cyfnod adrodd – 16/04/23 – 16/04/24)

**6851** o Ddilynwyr ar LinkedIn ↑ 11.1%

**4760** o ddilynwyr ar X ↑ 4.5%

## Prosiectau Allweddol

- Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru (WGOS)
- Dyletswydd Gonestrwydd
- Cynllun Tymor Canolig Integredig
- Adolygiadau Blynyddol Adrannol/ Sefydliadol
- Ap Digwyddiadau Mawr
- HPMA Cymru
- Grŵp Cydweithredol Cymru dros Atal Trais
- Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio
- Datblygu gwefan allanol
- Rhaglen Cynnig Gwerth Gweithwyr (EVP)

# Iechyd a Llesiant



## Cynlluniau Buddion Staff

O fewn Tîm Buddion Staff PCGC, rydym yn cynnig y cynlluniau canlynol i staff:

- **Cynllun Prydlesu Cerbydau Staff** Caiff y cynllun hwn ei redeg ar y cyd ag NHS Fleet Solutions a'i nod yw rhoi'r cyfle i bob aelod cymwys o staff PCGC gael cerbyd o'u dewis am bris cystadleuol iawn,ac ar yr un pryd arbed arian i'r sefydliad a ddefnyddir i gefnogi'r gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

- **Ad-dalu Benthyciadau trwy Gyflog** Mae'r cynllun yn cynnig benthyciadau ar gyfraddau fforddiadwy, i fwy o bobl na chynlluniau cyfatebol gan fanciau, fel dewis fforddiadwy arall yn lle cardiau credyd a gorddrafftiau. Gellid ei ddefnyddio hefyd i dalu costau annisgwyl neu i gynorthwyo i gyflawni nodau ariannol tymor hir.

- **CynllunCyfarpar Electronig yn y Cartref** Caiff ei redeg ar y cyd â Home Electronic Solutions a'i fwriad yw rhoi'r cyfle i bob aelod cymwys o staff PCGC i brynu eitemau electronig o'u dewis ar gyfer y cartref am bris cystadleuol iawn o Currys/PCWorld, ac ar yr un pryd arbed arian i'r sefydliad a ddefnyddir i gefnogi'r gwasanaethau a ddarperir i gleifion. Nid oes angen rhoi blaendal ac nid yw'r costau'n newid trwy'r holl gyfnod ad-dalu.

## Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod nodau hirdymor uchelgeisiol er mwyn adlewyrchu'r Gymru rydym ni am ei gweld nawr ac yn y dyfodol. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cenedlaethau'r dyfodol, ynghyd â GIG Cymru a'n dylanwad ehangach trwy'r swyddogaethau cydwasanaethau a ddarparwn.

Am y rheswm hwn, cynnwys y Ddeddf yw'r llinyn euraidd sy'n parhau i redeg trwy galon popeth a wnawn, ac yn rhoi sail i'n polisïau, ein strategaethau a'n cynlluniau.

Rydym wedi ymgorffori'r pum ffordd o weithio sy'n sicrhau ein bod yn diogelu anghenion cenedlaethau'r dyfodol heb beryglu anghenion y presennol.

Mae'n sicrhau bod ein trefniadau llywodraethu cadarn yn gwella lles diwylliannol, cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol Cymru drwy'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy.

Yn cyd-fynd â'r dull gweithredu hwn y mae'r angen i fynd i'r afael â newid hinsawdd a hyrwyddo'r Economi Sylfaenol. Mae datgarboneiddio yn sail i'n strategaeth darparu gwasanaethau ac mae'r tudalennau canlynol yn rhoi llawer o enghreifftiau o sut rydym yn cyflawni hyn yn ymarferol. Mae datblygu Economi Sylfaenol yng Nghymru nid yn unig yn helpu i leihau'r ôl troed carbon ond mae'n darparu mwy o wytnwch ac yn hyrwyddo busnesau a swyddi lleol.

## Cynhadledd Iechyd a Llesiant

Cynhaliwyd ein Cynhadledd Iechyd a Llesiant flynyddol yn 2023 yn rhithwir ac roedd tua 300 o gyfranogwyr yn bresennol.

Cafodd y digwyddiad ei recordio ac roedd ar gael i'w wylio wedyn. Y thema eleni oedd "Llesiant a Pherthyn."

Roedd y diwrnod yn cynnwys sesiynau rhyngweithiol ar ymlacio ac ymwybyddiaeth ofalgar, ynghyd â sgyrsiau llawn gwybodaeth ar "Ymwybyddiaeth o'r Menopos", "Clwb Andy Mans – (Iechyd Meddwl Dynion)", "Amrywiaeth mewn Diet", "Llesiant a Pherthyn" a "Chefnogaeth Llesiant Ariannol". Roedd yr adborth yn gadarnhaol iawn.

## Llesiant Ariannol

Rydym wedi parhau i gynnig benthyciadau fforddiadwy i'n staff, wedi'u had-dalu'n uniongyrchol o'r cyflog drwy Salary Finance. Rydym hefyd wedi parhau i weithio'n agos gyda HelpwrArian yn ogystal â Salary Finance i ddarparu cymorth a gwybodaeth llesiant ariannol i'n staff trwy ein tudalennau mewnrwyd. Fe wnaethom gynnwys sesiwn Llesiant Ariannol fel rhan o'n cynhadledd flynyddol.

## Wythnos Siarad am Arian

Yn 2023 fe wnaethom gymryd rhan eto yn wythnos Siarad Arian. Anfonwyd gwybodaeth am Lesiant Ariannol at yr holl staff trwy e-bost. Rydym hefyd wedi datblygu posteri newydd gyda chodau QR yn cysylltu â gwefannau Llesiant Ariannol a Chymorth Dyled, i alluogi staff nad ydynt yn cael mynediad rheolaidd at gyfrifiaduron gwaith i allu cyrchu'r wybodaeth. Cynhaliodd y gwasanaeth Cyngor Arian a Phensiynau sesiwn rithwir i staff ar gymorth Llesiant Ariannol a Phensiynau.



# Iechyd Corfforol

Parhaodd sesiynau Gweithgarwch Corfforol amser cinio i redeg tan 23 Gorffennaf ac roedd nifer dda yn bresennol. Fe wnaethom gynnwys sesiwn anadlu ar gyfer ymlacio yng nghynhadledd mis Tachwedd.



Iechyd y Galon - Ym mis Medi 2023 fe wnaethom ychwanegu tudalen adnoddau a gwybodaeth newydd ar Ganolfan Iechyd a Llesiant y fewnrwyd i staff, sydd wedi'i neilltuo i gadw eich calon yn iach. Mae hyn yn cynnwys cyngor ar fwyta'n iach, ymarfer corff, yfed alcohol, a chadw pwysau gwaed dan reolaeth.



Menopos - Yn 2023 ymrwymodd PCGC i'r Addewid Gweithle Menopos. Mae bron i hanner gweithlu'r DU yn fenywod, ond mae llawer yn teimlo eu bod yn cael eu gorfodi i leihau eu horiau gwaith, gwrthod dyrchafiadau a hyd yn oed roi'r gorau i'w swyddi oherwydd diffyg cymorth ar gyfer y menopos.

Os yw pobl sy'n cael eu heffeithio gan y menopos yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn y gwaith, gall helpu i gynyddu cyfraddau cadw staff, lleihau costau recriwtio, gwella cynhyrchiant, hapusrwydd a llesiant, a sicrhau gweithlu mwy amrywiol.

Wrth lofnodi'r Addewid Menopos yn y Gweithle, mae PCGC yn ymrwymo i'r canlynol:

- Cydnabod y gall y menopos fod yn fater sy'n berthnasol i'r gweithle a bod angen cymorth ar fenywod.
- Siarad yn agored, yn gadarnhaol ac yn barchus am y menopos.
- Cefnogi a hysbysu gweithwyr sy'n cael eu heffeithio gan y menopos.

Drwy gydol 23/24 mae cyfres o sesiynau hyfforddi Ymwybyddiaeth Menopos wedi cael eu cynnal ar-lein i staff ac i Reolwyr. Mae'r rhain wedi'u trefnu mewn partneriaeth ag Unsain. Mae'r sesiynau hefyd wedi bod yn cael eu cynnig i'n Golchdai a'n Storfeydd.


Mae ein cyfarfodydd Caffi Menopos yn dal i gael eu cynnal yn fisol ac mae nifer dda yn bresennol. Rydym yn parhau i ddatblygu'r gefnogaeth a'r wybodaeth sydd ar gael ar-lein ac ar ffurf poster.

# Iechyd Meddwl

- Mae gweminar iechyd meddwl wedi'i ddatblygu ar gyfer yr holl staff, sy'n darparu gwybodaeth am wasanaethau cymorth o fewn y sefydliad yn ogystal ag opsiynau cyfeirio i sefydliadau iechyd meddwl amrywiol yng Nghymru. Mae'r weminar hefyd yn ceisio chwalu unrhyw rwystrau sy'n gysylltiedig â stigma neu wahaniaethu.

- Sefydlu PCGC fel Canolfan Achrededig ar gyfer darparu cymwysterau Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl, gan alluogi ein sefydliad i gynnig dysgu cyd-destunol, achrededig mewn Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl i staff, gan gefnogi twf Rhwydwaith Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl PCGC ac yn ei dro y cymorth iechyd meddwl ar gyfer ein staff. Byddwn yn dechrau hyfforddi ein staff ym mis Mehefin 2024 wrth i ni gyflwyno'r gwasanaeth achrededig newydd hwn.

- Cyflwyno botwm "Cael Help Nawr" ar gyfer mynd i'r afael ag argyfyngau iechyd meddwl. Mae'r nodwedd wedi'i diweddaru hon o'r Ganolfan Iechyd a Llesiant ar-lein yn sicrhau bod staff yn gallu cael mynediad at y cymorth angenrheidiol cyn gynted â phosibl.




- Rydym wedi lansio Tudalen Cymorth i Ddynion sy'n rhoi'r cyfle i gydweithwyr gwrywaidd gysylltu â sefydliadau iechyd meddwl sydd wedi'u teilwra'n benodol ar gyfer dynion a'r rhai sy'n ystyried eu hunain yn ddynion. Mae hyn yn caniatáu mynediad hawdd at lwyfannau fel Andy's Man Club a'r Fforwm Iechyd Dynion.



- Parhau i ddarparu sesiynau ymwybyddiaeth iechyd meddwl Dynion a gyflwynir gan Andy's Man Club.

- Rhoi sesiynau ymwybyddiaeth straen proffesiynol a sesiynau ymwybyddiaeth iechyd meddwl ar waith ym mhob un o safleoedd PCGC, a fydd yn darparu ar gyfer staff ar-lein ac all-lein, er mwyn hybu agwedd llesiant i bawb at lesiant.



- In order to achieve our goal of promoting wellness for all we have trained NWSSP's Mental Health Well-being Advisor on the topic of "understanding of mental health in Muslim communities."

# Amrywiaeth a Chynhwysiant

- Cyhoeddi Cynllun Gweithredu Amrywiaeth a Chynhwysiant PCGC yn amlinellu ein hymrwymiadau ar gyfer y 2 flynedd nesaf



- Wedi darparu mwy o hyfforddiant mewn Amrywiaeth a Chynhwysiant sy'n cynnwys Hyfforddiant Tuedd Anymwybodol a Hyfforddiant Gwrth Hiliaeth i bob uwch arweinydd yn ogystal â chynnwys modiwl Arweinyddiaeth Gynhwysol yn ein rhaglenni Arwain ar gyfer Rhagoriaeth ac Arloesedd a modiwl Recriwtio Cynhwysol yn ein Hyfforddiant Recriwtio



- Datblygu Gweminar Amrywiaeth a Chynhwysiant

- Darparu mynediad at e-ddysgu ar gyfer yr holl staff mewn Rheoli Timau o Bell, Tuedd Anymwybodol ac Arweinyddiaeth GynhwysolInclusive Leadership

- Gwahodd yr holl staff i ddylunio logo ar gyfer ein Hymgyrch Cynhwysiant Diogel sydd ar ddod a fydd yn cael ei lansio yn 2024 i hyrwyddo sgyrsiau agored sy'n cefnogi dysgu



- Rhoi sesiynau ymwybyddiaeth straen proffesiynol a sesiynau ymwybyddiaeth iechyd meddwl ar waith ym mhob un o safleoedd PCGC, a fydd yn darparu ar gyfer staff ar-lein ac all-lein, er mwyn hybu agwedd llesiant i bawb at lesiant.

- Recriwtio naw Llysgennad Amrywiaeth a Chynhwysiant i gefnogi'r Ymgyrch Cynhwysiant Diogel a hyrwyddo diwylliant cynhwysol.



# Ein Cyflawniadau




# Cydnabod Staff

**Roedd Gwobrau Cydnabod Staff PCGC 2023, a gynhaliwyd ar 28 Chwefror 2024, yn rhoi cyfle i'r Uwch Grŵp Arwain gydnabod yn ffurfiol ymrwymiad, ymroddiad a phroffesiynoldeb anhygoel ein holl staff o bob rhan o Gymru.**

Seremoni Gwobrau Cydnabod Staff 2023 oedd ein 8fed digwyddiad o'r fath, a'r trydydd i gael ei gynnal yn rhithiol, i ddathlu llwyddiant timau ac unigolion sydd wedi mynd y tu hwnt i'r disgwyl yn PCGC.



Cydnabuwyd staff mewn nifer o gategorïau gan gynnwys Gwerthoedd Craidd ein sefydliad sef Gwrando a Dysgu, Cydweithio, Arloesi a Chymryd Cyfrifoldeb. Cafwyd cydnabyddiaeth bellach yn y categorïau eraill sef Iechyd a Llesiant, y Gymraeg, Arweinyddiaeth, Modelu Amrywiaeth a Chynhwysiant, yr  Amgylchedd, Tîm y Flwyddyn, Partneriaeth Undebau Llafur ac Arwyr Cudd. Derbyniodd nifer o gydweithwyr hefyd Wobr Seren y Rheolwr Gyfarwyddwr am eu cyfraniadau rhagorol.



Yn unol â'r uchod, mae cyfres o ddigwyddiadau Gwobrau Cydnabod Staff rhanbarthol  hefyd ar y gweill, a´r rheini´n rhai ´wyneb yn wyneb´, lle mae cydweithwyr yn cael eu cydnabod yn bersonol gan yr Uwch Grŵp Arwain. Cynhaliwyd y digwyddiad cyntaf ar safle Matrix House yn Abertawe a chyflwynwyd gwobrau a thystysgrifau i nifer o gydweithwyr. Cynhaliwyd digwyddiadau rhanbarthol pellach ar draws Cymru yn ystod haf 2023.







*"Tynnodd y gwobrau sylw at y gwaith gwych yr ydych wedi'i wneud dros y 12 mis diwethaf. Fel un o'r beirniaid gwnaeth ansawdd uchel y cyflwyniadau argraff fawr arnaf. P'un ai fel unigolion, neu fel rhan o dimau ar raglenni neu brosiectau penodol, rydych wir yn gwireddu ein Gwerthoedd Craidd. Rwy'n falch o arwain sefydliad gyda gweithwyr mor broffesiynol ac ymroddedig."*

*- Rheolwr Gyfarwyddwr, Neil Frow*

# Ein Cyflawniadau

- Gwobr Esblygu – Sganio er Diogelwch / Endosgopi
- Adolygiad o Wyntyllau a Gwyntyllau Twymo mewn Lleoliadau Gofal Iechyd
- Cyflenwi’r Gwasanaeth Presgripsiynau Electronig yng Nghymru
- Achrediad Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cwsmeriaid
- Moderneiddio’r Gyflogres
- Rhaglen Rhwydwaith 75 Gwasanaethau Ystadau Arbenigol
- Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Dwyll GIG Cymru
- ISO2000-1 Rheoli Gwasanaethau
- Recriwtio Rhyngwladol
- Rhannu Gwybodaeth Archwilio Mewnol
- System Dalu Meddygon Teulu – Gweithio gyda Gogledd Iwerddon
- Rhannu Data mewn Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg

# Astudiaethau Achos

- Ailachrediad Cyfrifon Taladwy
- Peilot Recriwtio Meddygol Rhyngwladol Cymru Gyfan , Hwb Hyfforddeion...
- Gwasanaeth Presgripsiynu Electronig yng Nghymru
- Achrediad Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cwsmeriaid
- Archwilio Mewnol - Asesiad Ansawdd Allanol
- Llwyddiannau Ymweliadau ac Ardystio Gwlad yr Iâ
- ISO20000-1 ar gyfer Rheoli Gwasanaethau
- Defnydd Dŵr Golchdai
- Addewid Menopos
- Llwyddiant Bydwragedd ynSeremoni Wobrwyo Genedlaethol RCM
- Uned Feddyginiaethau PCGC
- Hyfforddai PCGC yn Ennill Gwobr Prosiect Sefydliad
- Llwyddiant Gwobrau Sganio er Diogelwch
- Deall Diogelwch Rhywiol yn y Gweithle

# Adborth gan ein Rhanddeiliaid

Roedd Kim yn wych o’r dechrau i’r diwedd. Atebodd ein holl ymholiadau yn gyflym iawn ac os nad oedd yn gwybod rhywbeth, daeth o hyd i’r wybodaeth ychwanegol yn gyflym iawn. Rhoddodd wybod i ni ar bob ca ac roedd hi’n barod iawn ar gyfer pob cyfarfod.

***Cynllunio, Perfformiad a Gwybodeg***

Mae gwasanaeth rhagorol a phroffesiynol yn cael ei roi gan James Webber a Paul Young. Gallwn ychwanegu sylwadau eraill fel eu bod bob amser yn gwrtais, bob amser yn barod i ymateb, yn awyddus i wneud addasiadau os bydd materion yn codi neu os gellir gwneud gwelliannau, maent bob amser wedi’u hymchwilio’n dda yn yr agweddau amry ol recriwtio rhyngwladol.

**Datrysiadau Gweithlu Digidol**

Mae’r tîm Gwasanaethau Ystadau Arbenigol (SES) yn darparu gwasanaeth gwerthfawr iawn i Lywodraeth Cymru yn ogystal â’r GIG. Mae’r tîm wir yn teimlo fel estyniad o’r tîm Cyfalaf, Ystadau a Chyfleusterau yma o fewn Llywodraeth Cymru .

***Gwasanaethau Ystadau Arbenigol***

Mae Lawrence sydd wedi ein helpu ni drwy fynd ar drywydd caffael a storfeydd, mae wedi bod yn hynod gymwynasgar a chwrtais ac yn gymorth anhygoel
Gwasanaethau

***Gwasanaethau Ystadau Arbenigol***

Maes gwasanaeth effeithiol, bob amser wrth law gyda chyngor a chymo clir Atal Twyll

***Atal Twyll***

Galluogodd Darren, gyda chefnogaeth aelodau eraill o dîm Y Cynllun Symleiddio i Fyfyrwyr (SSP), ddarparu ystod eang o wybodaeth mewn fformatau lluosog i gefnogi cyrff y GIG ledled Cymru i gyfathrebu am y Ddyletswydd Gonestrwydd gyda chleifion, staff a’r cyhoedd yn ehangac

***Gwasanaethau Corfforaethol***

Mae ardystiadau yn ffynonellau allanol o sicrwydd a chynhaliwyd nifer o archwiliadau allanol a ddilyswyd yn annibynnol ar draws ein Gwasanaethau, yn ystod y flwyddyn ariannol, gan gynnwys:

- Achrediad Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmeriaid a Safon Rheoli Amgylcheddol ISO14001 wedi'u hardystio ar lefel Gorfforaethol ar draws y sefydliad
- Adolygiadau Archwilio Allanol gan gynnwys Diogelwch Bwyd STS, Trwyddedu Cludo Nwyddau Peryglus, Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS)
- Wedi'i reoleiddio gan yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA), gan gynnwys Arferion Dosbarthu Da ac Arferion Gweithgynhyrchu Da
- Parhau i ardystio o fewn Gwasanaethau i Reoli Diogelwch Gwybodaeth ISO27001, Rheoli Ansawdd ISO9001, Taflen Data Deunydd a Diogelwch ISO11014, Safonau Rheoli Iechyd a Diogelwch ISO45001. Gwasanaethau i Wybodaeth ISO27001 Rheoli Diogelwch, ISO9001 Rheoli Ansawdd, ISO11014 Taflen Data Deunydd a Diogelwch, ISO45001 Iechyd a Diogelwch
- Arolygiad 4 blynedd llwyddiannus ar gyfer y Labordy Profi Deunyddiau Llawfeddygol i ISO17025, safon ansawdd byd-eang ar gyfer labordai profi a graddnodi
- Achrediad Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl fel Sefydliad Hyfforddwyr Sefydliad

## Gwobrau a Llwyddiannau

ae gwobrau ac enwebiadau staff ac is-adrannol, yn fewnol ac yn allanol, yn dangos ansawdd y gwasanaethau a ddarperir yn PCGC, gan gynnwys:

- Gwobrau Cydnabyddiaeth Staff Blynyddol
- Enillodd y Tîm Sganio er Diogelwch y Wobr Esblygiad yn seremoni Gwobrau Gweledigaeth y Dyfodol
- datgarboneiddio ar restr fer Gwobr Gweledigaeth y Dyfodol Cynaliadwy SSF
- Enillodd Tîm PROMPT Cymru Ragoriaeth mewn Bydwreigiaeth a Dysgu Coleg Brenhinol y Bydwreigiaeth (RCM) ym mis Mai 2023



# Datblygu Cynaliadwy



# Egwyddor Datblygu Cynaliadwy

***Rydym wedi ymrwymo'n llawn i ddatblygu a gweithredu dull Unwaith i Gymru, lle bo'n briodol. Mae'n hanfodol ein bod yn ymgorffori Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac wrth dynnu sylw at ymarfer gorau adrodd integredig, rydym wedi mapio ein huchafbwyntiau a'n cyflawniadau yn erbyn 'y Pum Ffordd o Weithio'.***

***Mae'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol i ni feddwl am y tymor hir, integreiddio gyda'r sector cyhoeddus ehangach, cynnwys ein partneriaid a gweithio ar y cyd, er mwyn osgoi problemau a defnyddio dull mwy cydgysylltiedig o ddarparu gwasanaethau.***

Hirdymor | Integreiddio | Cynnwys | Cydweithredu | Atal

## Hirdymor

- Cyflawni ardystiad i ISO14001:2015 ar gyfer Rheolaeth Amgylcheddol ar sail gorfforaethol.
- Parhau i adeiladu ar y gwaith a gyflawnwyd i gefnogi'r Economi Sylfaenol yng Nghymru, gan weithio gyda chyflenwyr o Gymru a defnyddio'r Offeryn Asesu Gwerth Cymdeithasol. Parhau i adeiladu ar y gwaith a gyflawnwyd i gefnogi'r Economi Sylfaenol yng Nghymru, gan weithio gyda chyflenwyr o Gymru a defnyddio'r Offeryn Asesu Gwerth Cymdeithasol.
- Parhau â'r gwaith o osod goleuadau LED, synwyryddion symud ac astudiaethau dichonoldeb ar gyfer paneli solar yn IP5, Matrix House a safleoedd eraill.
- Lleihau terfynau allyriadau ar draws y Cynllun Aberthu Cyflog Prydlesu Ceir ar gyfer cerbydau a hyrwyddo buddion a chynigion i gefnogi denu cerbydau mwy cynaliadwy.

## Integreiddio

- Wedi adnewyddu ac ail-lansio ein Cynllun Datgarboneiddio, a gafodd ei ymgorffori ym mhroses gynllunio'r Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) a'n hamcanion strategol.
- Mae ein gwaith o fonitro ein hôl troed carbon yn broses sydd wedi'i hintegreiddio'n dda a thrwy barhau i fabwysiadu trefniadau gweithio ystwyth, rydym yn creu meincnod newydd ac yn gwella'r broses o gasglu data a chywirdeb ar draws pob safle.
- Gwobrau Cydnabyddiaeth Staff Blynyddol a sioeau teithiol Cymru gyfan yn cael eu rhoi ar waith, gan gynnwys categorïau Cynaliadwyedd Amgylcheddol ac Iechyd a Llesiant.
- Cwblhawyd Asesiadau o'r Effaith Integredig ar Gydraddoldeb ar gyfer prosiectau ar draws y sefydliad, i ystyried agweddau gan gynnwys Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Cynaliadwyedd Amgylcheddol a'r Iaith Gymraeg.

## Cynnwys


- Mae'r Grŵp Partneriaeth Staff Iechyd a Llesiant wedi hen ennill ei blwyf gyda boreau coffi rheolaidd ar gyfer Hyrwyddwyr, a Cynhadledd Flynyddol Iechyd a Llesiant y Fframwaith Iechyd a Llesiant i staff.
- Mae cyfleoedd i staff gymryd a gwneud gwahaniaeth trwy ddod yn Swyddog Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl, yn Hyrwyddwr Amgylcheddol, Iechyd a Llesiant, neu Ddigidol, Newid Diwylliant, Parhad Busnes neu Ddigidol
- Mentrau ymgysylltu â staff megis gorsaf werthfawrogi, gwobrau cydnabod staff, cylchlythyrau, Dyma Ein PCGC, canolfan iechyd a llesiant a grwpiau staff gan gynnwys Rhwydwaith BALCH/ PROUD, Grŵp Cymorth i Ddynion a Chaffis Menopos.
- Cydnabod fel cyflogwr Ymroddedig Hyderus o ran Anabledd ac aelodaeth sefydliadol o'r Rhwydwaith Cyflogwyr ar gyfer Cydraddoldeb a Chynhwysiant (ENEI) sy'n darparu cyfleoedd dysgu ac adnoddau am ddim i'n staff. Dod yn sefydliad hyfforddwyr Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl achrededig.

## Cydweithredu

- Gweithio gyda darparwyr iechyd meddwl a llesiant i gyflwyno sesiynau ar gyfer ein gweithlu ar draws meysydd llesiant emosiynol, corfforol, meddyliol ac ariannol.
- Rydym wedi gweithio ar y cyd â'n staff i barhau i ddatblygu dull ystwyth o weithio er mwyn denu a chadw gweithlu amrywiol.
- Cydweithio â chyrff cyhoeddus a phreifat ar draws gofal sylfaenol a gofal cymdeithasol ar systemau cymorth i helpu gyda recriwtio.
- Cryfhau cysylltiadau ac alinio ein hagenda Datblygu Cynaliadwy ac ISO14001, gan gynnwys y Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio, gan weithio mewn partneriaeth â phartïon â diddordeb a rhanddeiliaid allweddol i gyflawni'r nodau.

## Atal

- Cynhaliwyd Asesiadau Risg Cynaliadwyedd ar gyfer pob gweithgarwch caffael dros £25,000 a chynhelir archwiliadau o'r broses hon.
- Gwelsom gynnydd o 26% yn y nifer a fanteisiodd ar y Cynllun Aberthu Cyflog Prydlesu Ceir, lle'r oedd 71% o'r cerbydau a ddarparwyd drwy'r cynllun yn rhai trydan a 21% yn rhai hybrid.
- Pecyn Cymorth Gweithio Ystwyth yn caniatáu
- staff i weithio'n hyblyg yn unol â gofynion y sefydliad. Lleihau'r defnydd o adnoddau prin a chyfyngedig, fel papur ac ynni.
- Mae dull archwilio sy'n seiliedig ar risg yn canolbwyntio ar y risgiau allweddol i amcanion sefydliadol.





# Perfformiad Cynaliadwyedd

***Mae PCGC wedi ymrwymo i reoli ei heffaith amgylcheddol, lleihau ei hôl troed carbon ac integreiddio egwyddor datblygu cynaliadwy yn ei busnes o ddydd i ddydd. Llwyddodd PCGC i weithredu ISO14001 fel ei System Rheoli Amgylcheddol (EMS), yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru ac mae wedi llwyddo i gynnal ei hardystiad ers mis Awst 2014, trwy weithredu'r model gwelliant parhaus, Cynllunio, Gwneud, Gwirio, Gweithredu.***

Cynhelir archwiliadau gwyliadwriaeth blynyddol i asesu cydymffurfedd parhaus â'r Safon. Mae Safon ISO14001:2015 yn rhoi mwy o bwyslais ar ddiogelu'r amgylchedd, gwelliant parhaus trwy ddull sy'n seiliedig ar broses risg ac ymrwymiad i arwain o'r brig i lawr, gan reoli ar yr un pryd anghenion a disgwyliadau partïon sydd â diddordeb a chan ddangos perfformiad amgylcheddol cadarn, trwy reoli effaith gweithgareddau, cynhyrchion neu wasanaethau ar yr amgylchedd.
Mae PCGC wedi ymrwymo i wella'r amgylchedd ac mae ganddi System Rheoli Amgylcheddol (EMS) gynhwysfawr ar waith er mwyn hwyluso'r gwaith o gyflawni'r Polisi Amgylcheddol.
Rydym wedi ymrwymo i leihau ein hôl-troed carbon trwy weithredu amrywiol fentrau amgylcheddol ac effeithlonrwydd yn ein safleoedd o fewn cwmpas ein hardystiad ISO14001:2015. Llwyddwyd i gael ardystiad i'r Safon ym mis Mawrth 2024 trwy gorff ardystio achredig UKAS, Simply Certification Ltd.

Eleni, rydym wedi cyflawni gostyngiad cyffredinol o 11.1% yn ein hôl troed carbon ar draws safleoedd. Mae hyn o'i gymharu â'r ffigurau a adroddwyd yn ein Hadolygiad Blynyddol 2022-23.

Er mwyn cyflawni'r gostyngiad hwn, mae amrywiaeth o fentrau wedi'u targedu wedi cael eu cynllunio a'u hymgorffori ar draws ein safleoedd a'n gwasanaethau. Mae'r buddsoddiad hwn mewn technolegau ecogyfeillgar megis goleuadau LED a seilwaith gwefru cerbydau trydan wedi bod yn cyfrannu'n sylweddol at ostyngiad mewn allyriadau CO2 i'r sefydliad. Mae'r Hyrwyddwyr Amgylcheddol a'r Tîm Gwyrdd yn parhau i nodi meysydd ar gyfer allyriadau ac arbedion gwastraff a helpu i wella'r broses o gasglu data. Mae'r cynnydd mewn mabwysiadu trefniadau gweithio ystwyth wedi arwain at ostyngiad yn nifer y staff ar safleoedd, ac mae hyn ynghyd â mwy o addysg ac ymwybyddiaeth o nodau a thargedau ôl troed carbon PCGC a'r gwahaniaeth y gall staff ei wneud, ni waeth pa mor fach, wedi gwneud cyfraniad i'w groesawu at y gostyngiad.

- Mae'r defnydd o drydan wedi gostwng 14% yn gyffredinol, oherwydd prosiectau megis gweithio ystwyth, gosod goleuadau LED a thechnoleg synwyryddion symud ar draws nifer o'n safleoedd. Daw 18.8% o'r gostyngiad hwn o Unedau Gwefru Cerbydau Trydan (EVCUs) ar draws ein hystad. Mae'r trydan 'gwyrdd' a gaffaelir o REGO (Gwarantau Tarddiad Ynni Adnewyddadwy) yn garbon niwtral ac ar draws 8 o'n safleoedd. Mae astudiaethau dichonoldeb wedi'u cwblhau ar gyfer gosod ffotofoltaig solar (PVs) mewn nifer o safleoedd gan gynnwys IP5 a Thŷ Matrix.



- Cynyddodd y defnydd o Unedau Gwefru Cerbydau Trydan (EVCUs) ar ein safleoedd 8.1% yn gyffredinol (wedi osgoi 5,810kg o Co2e). Mae argaeledd 24/7 a rhwyddineb mynediad at mannau gwefru yn annog eu defnydd gan staff GIG Cymru, hyd yn oed gyda'r Fflyd Negesydd Iechyd yn cael blaenoriaeth fel "olwynion GIG Cymru". O ran galw cynyddol am yr EVCUs, rydym yn gweld hwn fel mesur cadarnhaol i'r gymuned ehangach o ran ansawdd aer, yr amgylchedd a lleihau'r ôl troed carbon ar gyfer cymudo staff PCGC. Mae hyn yn cyfrannu at Gymru Iachach a Chyfrifol yn Fyd-eang gan fod gostyngiadau Co2e yn sgil gwefru cerbydau trydan, o'i gymharu â llosgi tanwydd o beiriannau petrol a disel.




- Cynyddodd y defnydd o nwy 0.7% (2,621 kg o Co2e), yn bennaf oherwydd anghysondeb a nodwyd yn Nhŷ'r Cwmnïau gyda'u boeler biomas a oedd â nam mawr ac a oedd yn cyfateb i gynnydd o 137.7% mewn Co2e, pan gafodd ei ddosrannu ar gyfer ôl troed PCGC ar y safle o 18.7%. Roedd y cynnydd hwn oherwydd dibyniaeth lwyr anffodus ar nwy am y cyfnod interim.



- Defnyddiwyd 31% yn llai o olew cerosin i gynhesu Ystad Ddiwydiannol Westpoint (3,917 kg o CO2e) yn ystod y flwyddyn. Dyma'r unig safle sy'n defnyddio olew i wresogi'r adeilad ac maent wedi cyflawni'r gostyngiad trwy addasiad tymheredd gweithredol, mesur defnydd a newid ymddygiad.



- Defnyddiwyd 14.3% yn fwy o ddŵr (222kg o CO2e), oherwydd cyfuniad o ffynonellau data gwell, mwy o ddilysrwydd, gostyngiad yn yr amcangyfrifon a ddefnyddiwyd a chyflwyno anfonebau i gefnogi data ar ddefnydd. Yn ogystal, mae'r amrywiad blynyddol naturiol yn gyfrifol am newid canrannol bach ac mae parhau i weithio'n ystwyth wedi arwain at nifer llai o staff ar gyfartaledd ar safleoedd.

- Mae cyfanswm y gwastraff a gynhyrchir ar draws ein holl safleoedd wedi gostwng 39.6% (27,046 kg o Co2e). Yn ystod 2023-24 fe wnaethom greu llinell sylfaen newydd yn sgil cyflwyno Rheoliadau Gwastraff newydd a gwell gwahanu ffrydiau gwastraff, gwell coladu data ac rydym wedi elwa ar y gostyngiad parhaus yn nifer y staff ar safleoedd oherwydd gweithio ystwyth.



- Gostyngodd gwastraff cyfrinachol yn gyffredinol 48.4% (10,860kg o Co2e) ac yn ystod y cyfnod cwblhawyd ymarfer rhesymoli i leihau amlder casgliadau a nifer y biniau ar safleoedd. Cedwir yr holl wastraff cyfrinachol mewn biniau diogel ar y safle a'i gludo ymaith gan ddarparwyr gwasanaethau achrededig i'w hail-bwrpasu yn eitemau fel llyfrau nodiadau, papur toiled, hancesi papur, ac ati. Mae pob ffrwd wastraff arall yn cael ei gwaredu'n briodol ac yn gyfrifol ac yn unol â'r Rheoliadau perthnasol.



- Gwelsom ostyngiad o 69.1% yn y defnydd o gerbydau cronfa ar draws y sefydliad (1,073kg o Co2e). Mae hyn yn gadarnhaol oherwydd ei fod yn lliniaru'r defnydd o gerbydau staff i gymudo ac yn annog rhannu ceir, lle bo'n bosibl ac mae mabwysiadu gweithio ystwyth yn barhaus hefyd wedi cyfrannu at y gostyngiad hwn. Yn ogystal, mae'r ceir cronfa a ddefnyddir yn y sefydliad yn gerbydau ecogyfeillgar (trydan, hybrid, ac ati).



- Bu gostyngiad o 3.43% yn nifer y milltiroedd busnes a deithiwyd yn ystod y cyfnod. Mae'r ffigur hwn yn isel o'i gymharu â ffigurau a adroddwyd cyn mis Mawrth 2020, o ystyried trefniadau gweithio ystwyth parhaus. Mae'r Model Un Cyflogwr Arweiniol wedi cael ei gynnwys yn ffigurau PCGC (gweler Data Ein Pobl am ragor o fanylion).



# Cyflogaeth Foesegol yn y Gadwyn Gyflenwi a chaethwasiaeth




Sefydlwyd y Cod Ymarfer gan Lywodraeth Cymru er mwyn cefnogi datblygu cadwyni cyflenwi mwy moesegol i gyflenwi contractau i sefydliadau sector cyhoeddus Cymru sy'n derbyn arian cyhoeddus.
Nod y Cod Ymarfer yw sicrhau bod gweithwyr yng nghadwyni cyflenwi'r sector cyhoeddus wedi eu cyflogi yn foesegol ac mewn modd sy'n cydymffurfio â llythyren ac ysbryd deddfau'r DU, a deddfau rhyngwladol.

Mae'n ymdrin â materion cyflogaeth fel caethwasiaeth fodern, sathru ar hawliau dynol, cosbrestru, hunangyflogaeth ffug, defnydd annheg o gynlluniau ymbarél, contractau dim oriau a thalu'r cyflog byw. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod gweithgarwch caffael a gyflawnir ar ran GIG Cymru yn cael ei wneud mewn modd moesegol.

Byddwn yn sicrhau bod gweithwyr yn y cadwyni cyflenwi yr ydym yn prynu ein gwasanaethau a'n nwyddau trwyddynt yn cael eu trin yn deg. Ymrwymwyd i'r Cod a datblygwyd cynllun gweithredu i fonitro ein cynnydd. Penodwyd ein Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol a Gwasanaethau Cyflogaeth yn Hyrwyddwr Cyflogaeth Foesegol.

Mae Tryloywder mewn Cadwyni Cyflenwi (TiSC) yn gronfa ddata ganolog sy'n rhoi mynediad i Ddatganiadau Caethwasiaeth Fodern a bostiwyd gan gyflenwyr.
Defnyddir y Datganiadau hyn yn ystod prosesau tendro, fel rhan o Ymrwymiadau'r Cod Ymarfer Cyflogaeth Foesegol.

Mae'r wefan yn galluogi PCGC i ddatgan ein gwrthwynebiad i gaethwasiaeth a pholisïau cysylltiedig yn gyhoeddus. Mae'r wefan wedi ei noddi gan Lywodraeth Cymru ac mae'n helpu i ddileu caethwasiaeth fodern mewn cadwyni cyflenwi.

## Hyd yma, mae PCGC wedi:

- Gwreiddio'r Cod Ymarfer Cyflogaeth Foesegol mewn gweithdrefnau gweithredu safonol;
- Wedi darparu hyfforddiant i'r rhai sy'n ymwneud â phrynu/caffael ar gaethwasiaeth fodern, arferion cyflogaeth moesegol.
- Alinio'r Cod Ymarfer yn ein Cod Ymarfer Caffael Cynaliadwy ehangach.
- Dod yn llofnodwr i gofrestr Tryloywder mewn Cadwyni Cyflenwi a chyhoeddi Datganiad Cyflogaeth Foesegol PCGC.
- Anogwyd cyflenwyr i ymrwymo i ymrwymiadau'r Cod Ymarfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi a hefyd i gofrestr Tryloywder mewn Cadwyni Cyflenwi (TISC) i roi cyhoeddusrwydd i'w hymrwymiad a'u datganiadau Caethwasiaeth Fodern/Cyflogaeth Foesegol.
- Ymgysylltu â chydweithwyr ehangach yn GIG yr Alban, GIG Gogledd Iwerddon, a GIG Lloegr i barhau i ddatblygu a rhannu arferion gorau.

## Bydd PCGC yn:

- Ymgysylltu'n briodol mewn modd sydd wedi'i dargedu â chyflenwyr a darpar gynigwyr, i sicrhau nad yw'r ffordd yr ydym yn gweithio yn cyfrannu at ddefnyddio arferion cyflogaeth anghyfreithlon neu anfoesegol.
- Cynnal a rhannu gwybodaeth am faterion a themâu cyflogaeth moesegol, gan sicrhau cefnogaeth barhaus i waith teg a gweddus.
- Parhau i ysgogi ein prosesau tendro i annog ein cyflenwyr i ymrwymo i ymrwymiadau'r Cod Ymarfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi a hefyd i gofrestr TISC, i roi cyhoeddusrwydd i'w hymrwymiadau a'u datganiadau Caethwasiaeth Fodern/Cyflogaeth Foesegol.
- Asesu ein gwariant a'n meysydd targed o risg uwch er mwyn parhau i fynd i'r afael ag unrhyw faterion posibl yn ymwneud â chaethwasiaeth fodern, cam-drin hawliau dynol a/neu arferion cyflogaeth anfoesegol.



# Ein Pobl



# Ein Pobl

*Ffynhonnell: ESR 31-Mar-24

## Crynodeb o Nifer Staff PCGC yn eu Swydd a'r Nifer Cyfwerth ag Amser Llawn

| Cyfarwyddiaeth | Nifer | Cyfwerth ag Amser Llawn |
|---|---|---|
| Is-adran Cyfrifon Taladwy | 150 | 144.77 |
| Is-adran Archwilio a Sicrwydd | 54 | 53.35 |
| Is-adran Corfforaethol | 26 | 22.51 |
| Is-adran Atal Twyll | 7 | 7.00 |
| Is-adran y Gweithlu Digidol | 28 | 27.67 |
| Is-adran Tîm Canolog e-Fusnes | 17 | 16.32 |
| Is-adran Cyflogaeth | 366 | 326.00 |
| Is-adran Cyllid | 27 | 26.80 |
| Is-adran Gwasanaethau a Letyir | 12 | 10.91 |
| Is-adran y Golchdy | 124 | 115.01 |
| Is-adran Cyfreithiol a Risg | 179 | 167.69 |
| Is-adran Archwilio Meddygol | 79 | 49.25 |
| Is-adran Gweithlu Meddygol | 17 | 16.80 |
| Is-adran Pobl a Datblygu Sefydliadol | 45 | 42.06 |
| Is-adran Gwasanaethau Technegol Fferylliaeth | 27 | 26.80 |
| Is-adran Cynllunio, Perfformiad a Gwybodeg | 45 | 44.19 |
| Is-adran Gofal Sylfaenol | 306 | 285.42 |
| Is-adran Caffael | 723 | 670.29 |
| Is-adran Un Cyflogwr Arweiniol | 3431 | 3243.10 |
| Is-adran Ystadau Arbenigol | 53 | 51.96 |
| Is-adran Profi Dyfeisiau Llawfeddygol (SMTL) | 25 | 22.92 |
| Is-adran Uned Cyflogwyr Cymru | 6 | 5.33 |
| **Cyfanswm Terfynol** | **5747** | **5375.14** |

## Crynodeb o Grwpiau Ethnig PCGC

| Categori Penodi | Nifer | % | Cyfwerth ag Amser Llawn |
|---|---|---|---|
| Tymor Penodol dros dro | 3442 | 59.74% | 3237.76 |
| Parhaol | 2320 | 40.26% | 2146.69 |
| **Cyfanswm Terfynol** | **5762** | **100.00%** | **5384.46** |

## Crynodeb Proffil Oedran PCGC

| Band Oedran | Nifer | % | Cyfwerth ag Amser Llawn |
|---|---|---|---|
| 20+ | 15 | 0.26% | 15.00 |
| 21-25 | 636 | 11.04% | 630.62 |
| 26-30 | 1294 | 22.46% | 1256.92 |
| 31-35 | 1342 | 23.29% | 1242.69 |
| 36-40 | 731 | 12.69% | 672.91 |
| 41-45 | 421 | 7.31% | 387.36 |
| 46-50 | 318 | 5.52% | 296.56 |
| 51-55 | 363 | 6.30% | 338.98 |
| 56-60 | 367 | 6.37% | 321.02 |
| 61-65 | 201 | 3.49% | 170.39 |
| 66-70 | 53 | 0.92% | 39.01 |
| >71 years | 21 | 0.36% | 13.01 |
| **Cyfanswm Terfynol** | **5762** | **100.00%** | **5384.46** |

## Crynodeb Rhywedd PCGC

| Rhywedd | Nifer | % | Cyfwerth ag Amser Llawn |
|---|---|---|---|
| Benyw | 3143 | 54.55% | 2876.70 |
| Gwryw | 2619 | 45.45% | 2507.76 |
| **Cyfanswm Terfynol** | **5762** | **100.00%** | **5384.46** |

## Categorïau Gweithwyr PCGC yn ôl Rhywedd

| Llawnamser/ Rhan Amser | PCGC | %PCGC | PCGC | %PCGC |
|---|---|---|---|---|
| **Rhaniad Rhywedd** | **Benyw** | **Benyw** | **Gwryw** | **Gwryw** |
| Llawnamser | 898 | 16.35% | 877 | 15.97% |
| Rhan amser | 338 | 6.15% | 140 | 2.55% |
| **Cyfanswm Terfynol** | **1236** | **22.50%** | **1017** | **18.51%** |

## Crynodeb o Grwpiau Ethnig PCGC

| Grŵp Ethnig | Nifer | % | Cyfwerth ag Amser Llawn |
|---|---|---|---|
| Gwyn | 3457 | 52.12% | 3201.23 |
| Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (BME) | 1320 | 11.96% | 1266.24 |
| Heb ei nodi | 113 | 2.26% | 104.48 |
| Dim wedi'i gofnodi | 872 | 33.66% | 812.51 |
| **Cyfanswm Terfynol** | **5762** | **100.00%** | **5384.46** |

## Crynodeb o Statws Priodasol PCGC

| Statws Priodasol | Nifer | % | Cyfwerth ag Amser Llawn |
|---|---|---|---|
| Mewn Partneriaeth Sifil | 70 | 1.21% | 65.68 |
| Wedi Ysgaru | 139 | 2.41% | 128.54 |
| Wedi gwahanu'n gyfreithiol | 12 | 0.21% | 10.87 |
| Yn Briod | 1785 | 30.98% | 1609.03 |
| Unigol | 1702 | 29.54% | 1626.15 |
| Anhysbys | 967 | 16.78% | 901.89 |
| Yn Weddw | 24 | 0.42% | 21.84 |
| Dim wedi'i gofnodi | 1063 | 18.45% | 1020.45 |
| **Cyfanswm Terfynol** | **5762** | **100.00%** | **5384.46** |

## Crynodeb Cyfeiriadedd Rhywiol PCGC

| Statws Priodasol | Nifer | % | Cyfwerth ag Amser Llawn |
|---|---|---|---|
| Deurywiol | 104 | 1.80% | 98.53 |
| Hoyw neu Lesbiaidd | 90 | 1.56% | 85.41 |
| Heterorywiol neu Syth | 3000 | 52.07% | 2790.30 |
| Heb nodi (gofynnwyd i'r person ond gwrthododd roi ymateb) | 253 | 4.39% | 236.89 |
| Amhenodol | 2309 | 40.07% | 2167.52 |
| Cyfeiriadedd rhywiol arall nad yw wedi'i restru | 4 | 0.07% | 3.80 |
| Heb benderfynu | 2 | 0.03% | 2.00 |
| **Cyfanswm Terfynol** | **5762** | **100.00%** | **5384.46** |

## Crynodeb o Gred Grefyddol PCGC

| Cred Grefyddol | Nifer | % | Cyfwerth ag Amser Llawn |
|---|---|---|---|
| Anffyddiaeth | 1168 | 20.27% | 1111.24 |
| Bwdhaeth | 63 | 1.09% | 60.27 |
| Cristnogaeth | 1653 | 28.69% | 1521.80 |
| Hindŵaeth | 117 | 2.03% | 112.32 |
| Nid wyf am ddatgelu fy nghrefydd/cred | 486 | 8.43% | 465.08 |
| Islam | 438 | 7.60% | 414.79 |
| Iddewiaeth | 6 | 0.10% | 4.90 |
| Arall | 297 | 5.15% | 278.63 |
| Siciaeth | 14 | 0.24% | 13.33 |
| Amhenodol | 1519 | 26.36% | 1401.10 |
| Jainiaeth | 1 | 0.02% | 1.00 |
| **Cyfanswm Terfynol** | **5762** | **100.00%** | **5384.46** |

# Rhagolwg



# Egwyddorion Cyffredinol ar gyfer



## Gwneud y pethau sylfaenol yn dda

Mae PCGC wedi ymrwymo i ddarparu sylfaen gadarn ar gyfer GIG Cymru, drwy ddarparu gwasanaethau dibynadwy i'n partneriaid.

Mae ffocws ar ragoriaeth yn hanfodol i lwyddiant cyffredinol ein CTCI ac rydym yn deall yr effaith y mae hyn yn ei chael ar ddarparu gofal iechyd ledled Cymru. Yn 2023, enillodd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru achrediad corfforaethol ar gyfer Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cwsmeriaid, gan amlygu ein hymroddiad i sicrhau bod rhagoriaeth wrth wraidd ein gwasanaethau.



## Cynaliadwyedd Ariannol

Rydym wedi ymrwymo o hyd i gyllideb gytbwys, i gydymffurfio â'n dyletswydd i adennill costau a chynllun ailfuddsoddi wedi'i dargedu ar gyfer y gwasanaethau hynny gan PCGC sy'n cefnogi ein Blaenoriaethau Gweinidogol yn uniongyrchol. O fewn ffrydiau gwaith Gwerth a Chynaliadwyedd, rydym yn arwain mewn tri maes: y gweithlu, meddyginiaethau a rhagnodi, a gwariant caffael a gwariant nad yw'n ymwneud â chyflogau. Yn ogystal, rydym yn asesu effaith amrywiadau direswm ar ein gwasanaethau ein hunain.




## Dyletswydd Ansawdd

Mae hon yn flaenoriaeth allweddol i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru gan ei bod yn cyd-fynd â'n nod cyffredinol, sef Sicrhau Gwerth, Arloesedd a Rhagoriaeth drwy Bartneriaeth. Rydym yn deall y rôl hanfodol rydym yn ei chwarae wrth gefnogi agweddau amrywiol ar gyflenwi gofal iechyd, gan gynnwys caffael, fferylliaeth a gwasanaethau gweithlu. Mae ein haliniad â'r Ddyletswydd Ansawdd yn atgyfnerthu ein hymroddiad i wella ansawdd ac effeithiolrwydd cyffredinol ein gwasanaethau ledled Cymru.



## Llesiant Staff

Byddwn yn parhau i ddarparu cefnogaeth i'n holl staff i hyrwyddo llesiant corfforol, meddyliol ac ariannol. Byddwn yn cynnal y dull partneriaeth cryf yr ydym wedi bod yn ei adeiladu gyda'n hundebau llafur wrth inni lywio newid parhaus, gan sicrhau bod lleisiau ein staff nid yn unig yn cael eu clywed, ond eu bod yn cael sylw hefyd.

# Blwyddyn 1 Cynllun ar Dudalen

*Yn cyd-fynd â'n hamcanion strategol a'n canlyniadau*

GIG CYMRU NHS WALES Partneriaeth Cydwasanaethau Shared Services Partnership

## Ein Pobl

**Byddwn yn creu cyfleoedd i'n staff presennol a'n staff yn y dyfodol wneud y gorau o'u potensial a meithrin ein cyflenwad o dalent.**

Gweithredu Strategaeth Dysgu a Datblygu i fynd i'r afael ag anghenion dysgu staff ar draws y sefydliad.

Cryfhau ein Cynnig Gwerth Cyflogeion gyda brandio, marchnata, cyrchu, ac atyniad i wella recriwtio a chadw staff gennym.

**Byddwn yn cynyddu amrywiaeth ein gweithlu ac yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg ym mhopeth a wnawn.**

Gweithredu rhaglen buddion staff Cymru gyfan.

Cefnogi hyfforddeion clinigol i ddatblygu ac ymestyn eu sgiliau iaith Gymraeg trwy hyfforddiant a rhaglenni addysgol.

**Byddwn yn hyrwyddo llesiant corfforol, cymdeithasol, meddyliol ac ariannol ar draws yn sefydliad i gefnogi ein staff.**

Gweithredu rhaglen buddion staff Cymru gyfan.

Galluogi staff i Godi Llais heb Ofn a bod yn hyderus y byddant yn cael eu trin gyda pharch ac empathi a bydd pryderon yn cael sylw.

**Byddwn yn gwrando ar ein staff ac yn dysgu oddi wrthynt i gyd-gynhyrchu atebion arloesol gyda'n partneriaid.**

Ymgorffori ymagwedd newydd at gysylltiadau gweithwyr, lle mae ein pobl yn ganolog i bopeth i leihau niwed wrth ymdrin ag ymchwiliadau.

Gwella sgiliau staff i gefnogi technolegau digidol newydd ac adfywio ein rhwydwaith Hyrwyddwyr Digidol i wneud y mwyaf o'n buddsoddiad yn Microsoft 365.

## Ein Gwasanaethau

**Byddwn yn galluogi ein timau sy'n delio â chwsmeriaid i gau mwyafrif yr ymholiadau ar y cyswllt cyntaf, trwy wella cyflymder y gwasanaeth, ansawdd a phrofiad.**

Cefnogi datblygiad Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol Cymru Gyfan cadarn a chynaliadwy ledled Cymru.

Mesur hyd a lled gwelliannau i'r Cofnod Staff Electronig a Chymorth Dysgu i gyd-fynd â systemau.

**Byddwn yn ysgogi arloesedd, gan osod y safon ar gyfer arfer da, a gwella ein prosesau drwy awtomeiddio**

Arwain y gwaith o ddatblygu a gweithredu Rhaglen Trawsnewid Porth y Bobl.

Gwerthuso'r Rhaglenni Moderneiddio Recriwtio a Chyflogres i nodi cyfleoedd symleiddio a ffyrdd o leihau amser ar gyfer penodi.

**Byddwn yn meithrin partneriaethau ag arweinwyr diwydiant a sefydliadau academaidd ac yn ceisio statws Prifysgol**

Bydd Cronfa Risg Cymru yn gweithio gyda sefydliadau'r GIG i ymgorffori diwylliant o ddysgu gwell o ddigwyddiadau clinigol ar draws gofal sylfaenol ac eilaidd.
Parhau i ymrwymo i ehangu mynediad drwy gynyddu ein prentisiaethau ac archwilio cyfleoedd fel interniaethau

**Byddwn yn cael ein llywio gan ddata, gan rannu gwybodaeth â'n partneriaid i ddylanwadu ar y gwaith o wneud penderfyniadau ar draws GIG Cymru.**

Bydd Cronfa Risg Cymru yn gweithio gyda sefydliadau'r GIG i ymgorffori diwylliant o ddysgu gwell o ddigwyddiadau clinigol ar draws gofal sylfaenol ac eilaidd.

Cefnogi Byrddau Iechyd i reoli materion yn ymwneud â'r gadwyn gyflenwi drwy feintioli meintiau a chymhlethdod prinder meddyginiaethau.

## Ein Gwerth

**Byddwn yn gwneud penderfyniadau buddsoddi beiddgar sy'n ysgogi trawsnewid ac yn ychwanegu gwerth.**

Cwblhau prosiect gweithredu i symud System Rheoli Ariannol Oracle i Seilwaith Cwmwl Oracle.

Adeiladu uned radiofferylliaeth o

**Byddwn yn arwain y ffordd wrth ymdrin â'r newidiadau angenrheidiol i fynd i'r afael â'r argyfwng newid hinsawdd a chyflawni targedau datgarboneiddio**

Cyflawni cyfraniad Caffael at Gynllun Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru.

Archwilio systemau adfer gwres dŵr gwastraff ac adfer stêm pellach i gynyddu effeithlonrwydd ar draws Gwasanaethau'r Golchdy.

**Byddwn yn defnyddio ein hadnoddau yn effeithlon ac yn creu effaith gadarnhaol ar sail gymdeithasol a chynaliadwy.**

Cyflwyno Sganio er Diogelwch fel rhan o raglen foderneiddio Cymru (rhaglen 5 mlynedd).

Arwain ar gyflwyno Contract Offthalmig Cenedlaethol Cymru.

**Byddwn yn arwain cyfleoedd i gynyddu buddsoddiad yn yr economi sylfaenol ledled Cymru fel cyfran gynyddol o'n cadwyn gyflenwi.**

Cyflawni cynllun gwaith cytunedig ar yr Economi Sylfaenol i'r GIG yn gysylltiedig â Chaffael.

Meithrin sgiliau Cymraeg ein gweithlu parhaol gan sicrhau ein bod yn gynrychioliadol o'r cymunedau yr ydym yn gweithio ynddynt.

Diolch am ddarllen ein Hadolygiad Blynyddol. Os hoffech chi gael gwybod mwy, ewch i'n gwefan, ein sianeli cyfryngau cymdeithasol, neu defnyddiwch y manylion cyswllt isod:


01443 848585

shared.services@wales.nhs.uk

www.nwssp.wales.nhs.uk

@nwssp

Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru,
4-5 Charnwood Court,
Hoel Billingsley,
Parc Nantgarw,
Cardiff,
CF15 7QZ



*Dyluniwyd y ddogfen hon gan Dîm Cyfathrebu PCGC. nwssp.communications@wales.nhs.uk*